Cyngor Bro Llanfairpwllgwyngyll
Cofnodion Cyfarfod 31ain Gorffennaf 2012

Presennol: A. Mummery (Cadeirydd), A. Jones, A. Thomas, G.C. Jones, J.A. Edwards, G. Parry, J. Roberts, H. Huws Anwen Le Cras (Clerc)

1. Ymddiheuriadau: Bethan Jones, Arfon Williams, Cynghorydd Sirol J. Evans

2. Datganiadau Diddordeb: J. Roberts (eitem 7)

3. Materion y Cyngor Sir
Llongyfarchwyd A. Mummery ar ei etholiad i'r Cyngor Sir.

Nodwyd bod y Cyngor Sir wedi atgyweirio'r ffens ger 33 Trem Eryri.

4. Cyflwyno a chadarnhau cofnodion cyfarfod 26ain Mehefin 2012
Cywiriad - eitem 6 Pwyllgor Cyllid nid Amgylchedd ac Eiddo
Cynigwyd gan A. Jones ac eiliwyd gan G. Parry. Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir.

5. Materion yn codi o'r cofnodion
5.1 Grantiau - Cyfran deg - y gwaith wedi hanner ei gwblhau.
Grant Tidy Towns - heb fod yn llwyddiannus.

5.2 To Sied/ Pafiliwn, wedi gofyn i Gwyndaf Pritchard edrych ar y gwaith.

5.3 Y Cadeirydd a'r Is gadeirydd wedi cyfarfod gyda Huw Percy, Swyddog Priffyrdd i drafod nifer o faterion sydd angen sylw.

5.4 Bil dwr Clwb Bowlio - y broblem heb ei ddatrys hyd yma. Y Clwb Bowlio yn monitro defnydd dwr. Y Clerc wedi ysgrifennu at Dwr Cymru i ofyn am ostyngiad oherwydd nad yw'r mwyafrif o'r dŵr sy'n cael ei ddefnyddio yn dychwelyd i'r sustem gwastraff.

5.5. Sedd Wag - Cytunwyd i gynnig sedd i Emlyn Parry. Y Clerc i'w hysbysebu.

5.6 Dogfennau'r Cyngor Bro - nodwyd nad yw'r Cyn Clerc Alun Foulkes wedi trosglwyddo'r holl ddogfennaeth i'r Clerc presennol. Cynigwyd gan I. Bebb y dylid gyrru llythyr cyfreithiwr ato. Eiliwyd gan H. Huws. Cynigwyd gwelliant gan A. Mummery y dylid anfon llythyr i Mr Foulkes yn gofyn iddo drosglwyddo'r dogfennau cyn gorfod mynd at gyfreithiwr. Derbyniwyd y gwelliant 5 -4.

6. Cofnodion Pwyllgor Cyllid 10fed Gorffennaf 2012
Cywiriad - nid oedd I. Bebb yn bresennol.
Cynigwyd gan A. Mummery ac eiliwyd gan A. Jones. Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir.

7. Materion yn codi
7.1. Ceisiadau rhodd - Datganwyd diddordeb gan J. Roberts gan ei fod yn aelod o Fwrdd Rheoli CAB.
Cymeradwywyd y taliadau. Cytunwyd i'r Pwyllgor Cyllid greu rhestr o fudiadau i dderbyn rhodd yn 2013/14.

7.2 Costau Trydan Neuadd Goffa/ clwb Snwcer - Pwyllgor Neuadd Goffa i drafod ffioedd byrddau snwcer yn cyfarfod nesaf.

8. Cofnodion Pwyllgor Meysydd Chwarae 10fed Gorffennaf 2012
Cynigwyd gan J. Roberts ac eilwyd gan A. Mummery. Derfynwyd y cofnodion fel rhai cywir.

9. Materion yn codi
9.1 Sefyllfa dwr yn sefyll ar dir y Gors. Y Clerc i gysylltu â R.G. Hire am amcangyfrif o gost i weithredu ar y broblem.

10. Ceisiadau Cynllunio
Nodwyd bod ceisiadau cynllunio wedi'u derbyn ar gryno ddisg felly nid oedd manylion wedi'u rhannu gydag aelodau.
Y Clerc i ysgrifennu at y Cyngor sir i ofyn iddynt yrru manylion ar bapur gan nad oes modd gan y Cyngor bro i ddosbarthu gwybodaeth yn electronig. O'r herwydd roedd y Cyngor yn teimlo'n analluog i drafod y ceisiadau.
Y Clerc hefyd i ysgrifennu at Un Llais Cymru i'w hysbysebu am y mater.

11. Cyfrifon Mis Gorffennaf 2012
Cyflwynwyd taenlen taliadau a derbyniadau mis Gorffennaf a gwariant yn erbyn y gyllideb.
Derbyniwyd y cyfrifon fel rhai cywir a chytunwyd i'r taliadau.
Cytunwyd i'r Cadeirydd a'r Is Gadeirydd dalu unrhyw filiau a ddaw yn ystod mis Awst.

12. Gohebiaeth
12.1 Llythyr gan ddatblygwyr tai ger Tan Dinas eisiau galw'r safle'n Llys Merddyn. - cytuno
12.2 CSYM - cynllun arfaethedig i greu maes parcio ar gyfer cynllun *park & ride* ar safle coed Refail Goch. Y Cyngor Bro'n croesawu'r cynllun.
12.3 Cwmni Dewis - Rhestr ffioedd ar gyfer y gwaith o ddatblygu'r neuadd Goffa - er gwybodaeth.
12.4 PAWB Maniffesto Môn - er gwybodaeth
12.5 Penderfyniadau cynllunio - er gwybodaeth
12.6 A. B Roberts - cynnig pris o £470 am waith i'r sustem dwr peth yn y Gorlan. Derbyn y pris a symud ymlaen i wneud y gwaith.
12.7 Jamie Keene - pris o £150 am waith glanhau gwteri'r Gorlan. Derbyn y pris a threfnu'r gwaith.
12.8 Cylchlythyr Ieuan wyn Jones AS - er gwybodaeth.

13. Unrhyw Fater Arall
1. Maes Parcio Ty'n Rhos- y clerc i hysbysebu perchnogion cerbydau bod bwriad torri gwair yno yn y dyfodol agos.
2. Cyfarfod Un Llais Cymru - Alex Aldrige, Comisiynydd yn adrodd yn y cyfarfod.
3. Grŵp Trosedd ac Anrhefn - Adroddiad gan J. Roberts
4. Pwyllgor Safonau- diweddariad
5. Rheithor Philip Hughes yn ymddeol heddiw. Y Clerc i yrru llythyr o ddiolch iddo.
6. Llwybr troed Lon Dyfnia a Refail Goch - gofyn i John Eyton Jones dorri'r gwair.
7. Loriau'n parcio ar y palmant o flaen Spar. Argymell bod Spar/Mulcair yn cadw'r maes parcio'n glir ar gyfer y lorïau.
8. Peilonau - y Clerc wedi ail ysgrifennu at bartneriaeth AHNE i ofyn iddynt a fyddent yn gwrthwynebu codi peilonau yn ardal AHNE.

Dyddiad cyfarfod nesaf nos Fawrth 25ain Medi 2012 am 7.00yh

Arwyddwyd .....(Cadeirydd) .....Dyddiad